

# gwneud bywyd yn well... ...gyda'n gilydd

Pelican Healthcare a Gwasanaeth Dosbarthu Presgripsiynau Respond, partneriaeth sy'n gweithio i chi

Eakin Healthcare Group



# yno i chi...

"Bob tro rwy'n ffonio, rwy'n teimlo fel fy mod i'n siarad â ffrind. Y cwmni GORAU ERIOED. Dydw i ddim yn teimlo'n chwithig wrth ofyn am yr hyn y mae arna' i ei angen."

**Adborth gan Gwsmer**

**Delwedd:** James, Gofal Cwsmer Cynrychiolydd, Caerdydd



Mae ein busnes Ostomi yn y Deyrnas Unedig, sydd wedi'i ffurfio o Pelican a Respond, wedi ymrwymo i wella ansawdd bywyd y gymuned ostomi ledled y Deyrnas Unedig.

Ein cenhadaeth yw darparu datrysiadau gwasanaeth a chynhyrchion arloesol, sy'n helpu i greu dyfodol lle nad yw pobl sy'n byw gyda stoma'n cael eu diffinio gan eu cyflwr, a lle maen nhw'n cael eu grymuso i wneud dewisiadau gwybodus.

Rydym yn bartner ymrwymedig i'r GIG, gan gefnogi barn glinigol a rhannu'r gydweledigaeth o ofal cydgysylltiedig i gleifion.

pelican HEALTHCARE
respond making life better



# eich partner gofal iechyd perffaith

"Rydym yn defnyddio ein perthynas â chleifion i ddeall eu hanghenion yn well, a thrwy hynny rydym yn ceisio deall hanfodion yr hyn sydd wir yn gynnyrch gwell ar gyfer y dyfodol."

**Stuart Welland**
**Rheolwr Gyfarwyddwr, Pelican a Respond**



## Rydym wedi bod yn bartner cefnogol i'r gymuned ostomi ers dros 50 mlynedd.

Mae ein stori'n dechrau yn y 1970au pan aeth sylfaenydd ein rhiant-grŵp, sef Tom Eakin, ati i drawsnewid gofal ar gyfer pobl sydd wedi cael ostomi. O ddechreuadau bach yn y tŷ drws nesaf i fferyllfa Tom, mae Eakin Group wedi tyfu i gael dylanwad rhyngwladol, gyda brandiau cynhyrchion a gwasanaethau Pelican Healthcare a Respond yn ei bortffolio.

Ni yw'r unig gwmni yng Nghymru sy'n gwneud cynhyrchion ostomi. Ar hyn o bryd, rydym yn cyflogi dros 200 o bobl yng Nghaerdydd lle y sefydlwyd y cwmni dros 30 mlynedd yn ôl.

Yn Pelican Healthcare, rydym yn gwella ansawdd bywyd ein cwsmeriaid trwy ddarparu cynhyrchion meddygol o'r radd flaenaf i bobl sydd wedi cael ostomi.

Ni oedd y cwmni cyntaf yn y farchnad i gynnig bag stoma 'amgrwn meddal', ac rydym yn parhau i ddarparu amrywiaeth eang o gynhyrchion ostomi ac ymataliaeth arloesol, gan gynnwys cydau ac eitemau gofal croen a chynnal.

Mae ein cynhyrchion o safon yn darparu gwerth am arian a chanlyniadau gwell i ddefnyddwyr.

Yn Respond Healthcare, rydym yn darparu gwasanaeth dosbarthu presgripsiynau sydd wedi ennill gwobrau a gwasanaethau cymorth i'r gymuned gofal stoma ac ymataliaeth.

Rydym yn danfon cynhyrchion gan bob gweithgynhyrchwr ac yn ategu hyn â rhwydwaith o gymorth, gwybodaeth a chyngor arbenigol.

Eakin Healthcare Group

pelican HEALTHCARE

respond making life better




**Delwedd:** Tracey, Cynorthwy-ydd Teilwra a Warws, Caerdydd



## Rydym yn gwybod y gwahaniaeth y gall y gofal stoma ac ymataliaeth iawn ei wneud i ansawdd bywyd claf. Dyna pam rydym yn cynnig gwasanaeth dosbarthu presgripsiynau rhagorol sy'n ei gwneud yn hawdd i'n cwsmeriaid gael y cynhyrchion cywir pryd bynnag y mae arnyn nhw eu hangen.

Trwy ein tîm cymorth hyfforddedig, ein gwefan a'n tudalennau cyfryngau cymdeithasol, mae Respond Healthcare yn darparu rhwydwaith o gymorth cyfeillgar, gwybodaeth, a chyngor arbenigol.

Rydym eisiau i gwsmeriaid deimlo bod ganddynt gefnogaeth a chysylltiad, gyda gwasanaeth personol a gofalgar sy'n rhoi eu lles yn gyntaf.

Rhan o'r cymorth hwnnw yw teilwra'r gwasanaeth a gynigiwn, gan ddarparu cydau wedi'u torri o flaen llaw. A dweud y gwir, ni yw'r unig ddarparwr peiriannau teilwra stoma yn y Deyrnas Unedig.

Rydym hefyd yn gweithredu polisi dim cyfnewid cwbl dryloyw, o ran dewis cynhyrchion gyda nyrsys stoma GIG Cymru. Gweithrediad gwasanaeth yn gyntaf yw hwn, sy'n gwasanaethu 20% o'r bobl sydd wedi cael ostomi yng Nghymru.

**Ar gyfer ein cwsmeriaid yng Nghymru, mae cymorth gwasanaethau cwsmeriaid, llenyddiaeth a fideos ar gael yn Gymraeg hefyd.**

## Ein Haddewid Gwasanaeth

### Byth Cyfnewid Cydau
– Ni fyddwn byth yn cyfnewid cwdyn claf heb ganiatâd nyrs.

### Rhoi Dewis
– Byddwn yn rhoi gwybod i gleifion y gallwn ddanfon cynhyrchion gan bob gweithgynhyrchwr.

### Cynorthwyo Nyrsys
– Gydag addysg, hyfforddiant, a'r offer angenrheidiol y mae arnynt eu hangen.

### Cynorthwyo Cleifion
– Gyda chyfoeth o gyngor a llyfrynnau ffordd o fyw ar bynciau gan gynnwys mynd adref ar ôl llawdriniaeth, maeth, a theithio.

### Bod yn Gyson ac yn Ddibynadwy
– Darparu gwasanaeth personol a disylw i gleifion.

### Bod yno i Gleifion
– Gyda Respond Global Assistance, sef gwasanaeth cyflenwi brys pan fyddwch dramor.

### Rhoi Cyngor
– Mae ein Tîm Cymorth Cwsmeriaid cymwysedig yn cael eu hyfforddi gan weithgynhyrchwyr ar yr holl gynhyrchion – mae hyn yn sicrhau bod ein staff yn llwyr ddeall unrhyw ymholiadau neu gwynion sy'n gysylltiedig â chynnyrch cyn eu hatgyfeirio i'w nyrs ysbyty.




# darparwr gwasanaeth diduedd

**Delwedd:** Warws a Chanolfan Ddosbarthu Ffynnon Taf



## At hynny, gan ei fod yn ddarparwr gwasanaeth diduedd, mae gan Respond Healthcare fynediad at gynhyrchion pob gweithgynhyrchwr heb flaenoriaeth na thuedd, felly mae'n cynnig mynediad gwell at samplau am ddim a detholiadau eraill o gynhyrchion.

Mae Respond Healthcare yn parchu annibyniaeth nyrsys gofal stoma arbenigol i ddefnyddio eu barn glinigol i ddewis cynhyrchion yn seiliedig ar y rhai sy'n gweddu orau i ganlyniadau'r claf.

Gan fod Respond Healthcare yn cynnig gwasanaeth diduedd, nid ydym yn hyrwyddo unrhyw frand unigol yn fwy nag un arall, a gallwn gyflenwi a chael gafael ar unrhyw gynnyrch sydd wedi'i restru yn Rhan IXC y tariff cyffuriau y gofynnir amdano gan nyrsys gofal stoma ledled Cymru.

**DAC o Ddewis ym Menter Arbed Costau Rheoli Meddyginiaethau Ysbyty Gwynedd**




"Mae'r system hon yn caniatáu i nyrsys ddiweddaru cofnodion tra byddant ar y ward ac mewn lleoliadau cymunedol. Mae wedi dileu'r angen i gadw cofnodion papur, gan arbed lle ac amser gweinyddol."

**Adborth gan nyrs gofal stoma**



## Respond Consult: system rheoli cleifion genhedlaeth nesaf.

Lluniwyd Consult i helpu i wella cyfathrebu yn yr ysbyty a chyda'r nyrsys gofal stoma cymunedol. Mae'n caniatáu i chi gael at gofnodion cleifion yn y fan a'r lle gyda chofnodion a nodiadau llawn ar gael trwy wasgu botwm. Gellir defnyddio Consult ar gyfer yr ymgynghoriad cychwynnol a thrwy gydol taith y claf. Gellir ei ddefnyddio ar eich bwrdd gwaith ac fel ap iPad pan fydd angen.

## Buddion Allweddol

- **Cynnig cyfathrebu di-dor** rhwng lleoliadau acíwt a chymunedol.
- **Buddion rheoli amser** – gellir atgyfeirio i wasanaeth dosbarthu Respond trwy wasgu botwm.
- **Gwella effeithlonrwydd** gyda system rheoli dyddiadur lawn.
- **Darparu tryloywder llwyr** o ran gofal cleifion.
- **Trosglwyddo cleifion yn rhwydd** rhwng gwasanaethau acíwt.
- **Adrodd yn fyw i GIG Cymru** gan gynnwys dadansoddi costau presgripsiynau a gwariant stoma.
- Y gallu i adrodd am **PREMs a PROMs.**
- **Templed torri digidol** wedi'i gynnwys.

## Nodweddion Allweddol

- v wedi'i theilwra
- Dangosfwrdd hawdd ei ddefnyddio
- Syncroneiddio all-lein
- Cydymffurfio â data
- Diogelu data
- Diogelwch
- Adrodd byw
- Rheoli dyddiadur
- Pecyn hyfforddiant a chymorth
- Llinell gymorth benodol



# cynhyrchion y gallwch ddibynnu arnynt

**Delwedd:** Dariusz, Gweithredwr Peiriant, Caerdydd



Yn ein safle gweithgynhyrchu yng Nghaerdydd, mae buddsoddiad Pelican mewn systemau cynhyrchu wedi'u teilwra, cwbl awtomataidd, o'r dechrau i'r diwedd, ar gyfer ei ddyfeisiau stoma wedi gwella ei allu a'i gapasiti cynhyrchu yn fawr. Dyma lle mae ein gweithlu ymroddedig yn creu cynhyrchion newydd arloesol ar gyfer marchnad ostomi'r Deyrnas Unedig.

**95 Aelod o Staff Cynhyrchu** – 30% yn fwy na'r llynedd*

**Tua 8,000,000 o gydau** yn cael eu cynhyrchu bob blwyddyn

**Buddsoddi £3.5m ar hyn o bryd** mewn llinell gydosod awtomataidd newydd o'r radd flaenaf

**I'n galluogi i ateb y galw gan gwsmeriaid am ModaVi

**100% o wastraff** yn cael ei ailgylchu neu ei losgi i greu ynni

**£3.7m** wedi'i wario ar ein ffatri i wneud lle ar gyfer ein cyfleusterau gweithgynhyrchu

**Tua £10m** wedi'i wario ar beiriannau yn ystod yr 11 mlynedd diwethaf i helpu i ateb y galw

**Gwastraff cardbord y warws** yn cael ei dorri'n fân i greu llenwad ar gyfer bocsys yn lle papur swigod

Rydym yn rhan o **Gynllun Gwastraff Pecynnu** a reolir

**Gweithdrefn gwaredu gwastraff arbennig ar** gyfer inciau, toddyddion, paent, tiwbiau golau ac ati




# arloesi... yn sail i bopeth

Gwobr Canmoliaeth Arbennig y beirniaid am gyfraniad ar Arloesedd – MediWales 2021

**Delwedd:** Cwdyn ModaVi Pelican

**Rhywbeth sy'n ein cyffroi ni yn Pelican a Respond yw datblygu datrysiadau arloesol sydd wir yn cynnig 'beth mae cwsmeriaid ei eisiau'. Mae hyn yn ein galluogi i gyflawni ein haddewid a throi cwsmer newydd yn rhywun sy'n cael yr hyn y mae ei eisiau (a mwy) gan gynnyrch.**

Mae ein hathroniaeth a'n hymagwedd yn syml – gwrando, dehongli, ymgorffori, profi, dangos, addasu, ailadrodd.


Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r ymagwedd hon wedi ein sbarduno i ddatblygu cynhyrchion sydd wedi'u trwytho â Vitamin E i helpu i hybu croen iach o amgylch stoma; cydau newydd fel ModaVi Pelican, gydag amrywiaeth o arloesiadau i siâp a strwythur, ffabrig, hidlo a swyddogaeth; a REFRESH, sef chwistrell arloesol 3 mewn 1, sy'n cynnwys tynnwr adlyn, haen ataliol a niwtralydd arogleuon – a ddyluniwyd i symleiddio'r drefn newid cwdyn.

Mae'r holl arloesiadau newydd yn cael eu datblygu gyda phwyslais ar anghenion nyrsys a phobl sydd wedi cael ostomi wrth eu dylunio, datblygu a phrofi.

Afraid dweud bod angen i ddyfais feddygol fodloni safonau penodol a sicrhau ei bod yn cydymffurfio â systemau rheoleiddiol fel ISO13485 a'r Rheoliadau Dyfeisiau Meddygol (MDR). Mae hyn yn sicrhau bod yr holl ddyfeisiau meddygol yn cael eu dylunio i gyflawni eu prif rôl yn ddiogel ac yn effeithiol bob tro.

I ni, mae ansawdd o'r fath yn ddiofyn, ac mae ein prosesau arloesi'n edrych y tu hwnt i'r swyddogaethol yn unig.

## Ein hathroniaeth



# cwsmeriaid bodlon Pelican



"Rwy'n dwlu ar y cwdyn yma ac ni allaf ei argymell digon!"
**Ant**



"Mae'n edrych yn daclus, wedi'i strwythuro'n dda ac mae'n ddigon mawr."
**Jack**



"Byddwn i'n argymell y bag 100% i ffrind, i unrhyw un, i'r byd!"
**Rachel**



"Mae'r hidlydd aer yn wych."
**Angelina**



"Dyma'r bag cyntaf i mi ei wisgo yn ystod y 14 blynedd diwethaf nad yw'n edrych yn 'frwnt'."
**Nathan**



"Fe anghofies i mod i'n gwisgo bag."
**Keith**




# mae ansawdd yn bwysig i ni

**Delwedd:** Technoleg bag mewn can 3 mewn 1 REFRESH



## Mae Pelican a Respond yn cael eu sbarduno gan ansawdd ac yn gweithredu yn unol â'r safonau uchaf.

### Pelican Healthcare Ltd

A ninnau'n weithgynhyrchwr blaenllaw dyfeisiau meddygol, mae ein cynhyrchion yn ddarostyngedig i ofynion ansawdd llym ac yn cydymffurfio ag ISO 13485:2016, sef y safon System Rheoli Ansawdd a gydnabyddir yn rhyngwladol ar gyfer y diwydiant dyfeisiau meddygol.

Rydym yn ymfalchïo yn y ffaith bod ein prif gyfleuster gweithgynhyrchu yng Nghaerdydd yn gweithredu yn unol â safon ansawdd eithriadol o uchel, ac mae gwiriadau cynhwysfawr yn cael eu cynnal drwy gydol y broses gynhyrchu i sicrhau bod ein cynhyrchion yn gweithredu yn unol â'r bwriad.

### Respond Healthcare Ltd

Yn Respond, rydym yn hyrwyddo ansawdd bywyd i bobl sy'n byw gyda stoma, gan roi eu gofal wrth wraidd yr hyn a wnawn, ac felly rydym yn llwyr gydymffurfio ag ISO 9001:2015, sef y safon ryngwladol benodol ar gyfer cynnal System Rheoli Ansawdd effeithiol.

Rydym yn rhoi ansawdd wrth wraidd popeth a wnawn er mwyn darparu'r gwasanaeth gorau posibl i'n cwsmeriaid. Yn unol â chanllawiau Llywodraethu Clinigol y GIG, rydym yn cynnal arolygon blynyddol i fonitro perfformiad a chanfod a oes unrhyw feysydd lle y gallem wella.

### System Rheoli Ansawdd

Mae ein Systemau Rheoli Ansawdd ar gyfer Pelican a Respond yn cael eu hasesu a'u harfarnu'n gyson i sicrhau ein bod yn cynnal diwylliant o wella'n barhaus, sy'n cynnwys archwiliadau mewnol ac allanol rheolaidd.

Mae ein Huwch Dîm Arweinyddiaeth yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn i adolygu data sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth, effeithiolrwydd, a pherfformiad prosesau a reolir gan y System Rheoli Ansawdd, ac mae camau'n cael eu cymryd pan amlygir cyfleoedd a gwelliannau.

respond
making life better




# cynhyrchion a gwasanaethau sydd wedi ennill gwobrau

**Delwedd:** Gwobr Masnach Gofal Iechyd Prydain 2018



## Mae'r ffaith ein bod yn rhoi pobl sydd wedi cael ostomi wrth wraidd popeth a wnawn wedi cael ei chydnabod gan nifer o wobrau gan y diwydiant.

**Ym mis Tachwedd 2018, enillodd Respond Healthcare Wobr Gwasanaethau Cleifion DAC y GIG.** Mae'r wobr hon ar gyfer cwmnïau sydd wedi'u contractio i ddarparu gwasanaethau'r GIG i gleifion newydd a phresennol gan ddefnyddio sgiliau a gwasanaeth bodlonrwydd cwsmeriaid rhagorol.

**Rydym hefyd yn y safle cyntaf mewn amrywiaeth o gategorïau Adolygiadau Darparu Gofal Iechyd** gan gwsmeriaid, gan gyrraedd y brig ar gyfer Gwasanaeth Cyffredinol Gorau / Gorau o ran Cyfathrebu a Gorau o ran Cyfeillgarwch. **www.healthcaredeliveryreviews.co.uk**

**O ystyried hefyd ein partneriaeth â'r cludwyr arobryn DPD a'n timau cymorth cwsmeriaid hyfforddedig arbenigol a gweithgynhyrchwyr,** fe allwch fod yn hyderus eich bod yn rhoi eich cleifion mewn dwylo diogel.

### Cylchgrawn 'Connect'

Mae cynnig gwasanaeth personol yn bwysig iawn i ni a rhoddir blaenoriaeth uchel i ymgysylltu â chwsmeriaid. Yn 2016, cyflwynodd Respond y cylchgrawn Connect fel ffordd o gyfathrebu â chwsmeriaid, nyrsys, elusennau a chymdeithasau. Wrth ddatblygu Connect, rhoddwyd pwyslais ar greu cyhoeddiad ffordd o fyw diddorol a llawn gwybodaeth sy'n cynnig cynnwys amrywiol ac erthyglau golygyddol wedi'u targedu'n dda a fyddai'n apelio at amrywiaeth o ddarllenwyr a demograffeg cwsmeriaid eang ledled y Deyrnas Unedig. Ein hamcan oedd dod â phawb yn agosach at ei gilydd a thyfu ein teulu Respond.





respond
making life better

# barn ein cwsmeriaid

**99.5%** dywed ein cwsmeriaid fod ein staff a'n gwasanaeth yn **rhagorol**

**Delwedd:** Billie, un o gwsmeriaid Respond

**98.6%** yn dweud ein bod yn **dda iawn** am ateb cwestiynau

**99.5%** yn dweud bod ein pecynnu ar gyfer danfon yn **dda iawn**

**99.5%** yn dweud ein bod yn **dda iawn** am gynnal cyflenwad o gynhyrchion

**99.7%** yn dweud ein bod yn **dda iawn** am ddarparu gwasanaeth effeithlon

**99.5%** yn dweud ei bod yn **rhwydd** cysylltu a siarad â ni

**99.5%** yn dweud bod eu harchebion yn cael eu derbyn mewn cyflwr **da iawn**

**99%** yn **fodlon iawn** â'r amser o archebu i ddanfon

**99.5%** yn dweud ein bod yn **gwrtais** ac yn **barod i wrando**

**98%** yn **fodlon iawn** â'n gwasanaeth teilwra cwdyn

**99.7%** yn dweud bod ansawdd ein gwasanaeth yn **rhagorol** neu'n **dda iawn**

**99.3%** yn dweud bod y gwasanaeth a ddarparwn yn **dda iawn**

**99.1%** yn dweud bod ein staff a'n gwasanaeth yn **rhagorol**

*Canlyniadau Arolwg Bodlonrwydd 2019 y GIG




# yng nghanol y gymuned

**Delwedd:** Rachel,
Lleisiau #GwiredduNewid



**Rydym yn cymryd ein cyfrifoldeb i'r gymuned ostomi a'r gymuned ehangach o ddifrif. Mae gan Pelican a Respond raglenni strwythuredig o gyfrannu rhoddion i elusennau, ac mae sefydliadau fel Mind, Tenovus a Chanser y Coluddyn y DU oll wedi bod yn bartneriaid "Elusen y Flwyddyn" yn flaenorol.**

Rydym hefyd yn gweithio gyda nifer o gymdeithasau ac elusennau i helpu i roi cyngor a chymorth i bobl sydd wedi cael ostomi. Mae'r rhain yn cynnwys:

Y Gymdeithas Wrostomi, Colostomi y DU, y Grŵp Cymorth Ileostomi a Chwdyn Mewnol (IA), Plant ac Oedolion Ifanc â Chlefyd Crohn a Cholitis (CICRA), yr Elusen Coluddyn a Phledren Plant (ERIC), yr Elusen Adenydd Porffor, Clefyd Crohn a Cholitis y DU, Cymorth Canser Macmillan; Mind; Canser y Coluddyn y DU a Sefydliad Breakaway.

Mae rhyngweithio'n barhaus â'n cwsmeriaid yn allweddol i ni hefyd, ac rydym yn cynnal ac yn cymryd rhan mewn nifer o ddigwyddiadau i gleifion, grwpiau cymorth a gweithgareddau a gynhelir gan elusennau.

Mae ein hymgyrch #GwireddduNewid yn cefnogi'r angen am fwy o addysg ynglŷn â bywyd gyda stoma a dealltwriaeth ohono, ac yn rhoi llwyfan i bobl sydd wedi cael ostomi i alw am newidiadau i arwyddion cyhoeddus i adlewyrchu'r rhai hynny sydd ag "anableddau cudd". Mae hyn yn unol â'r nod llesiant o sicrhau Cymru fwy cyfartal a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae'r cynllun peilot yng Nghaerdydd wedi cael cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Caerdydd, ac mae trafodaethau'n parhau gyda chyflogwyr yn y sector cyhoeddus a phreifat a darparwyr trafnidiaeth gyhoeddus ar draws y ddinas. Y nod yw cyflwyno'r ymgyrch ledled Cymru.

Rydym hefyd yn cynnal rhaglen addysg a hyfforddiant i helpu i leihau pryder pobl sy'n gwisgo cwdyn mewn rhai sefyllfaoedd cymdeithasol. Gan ei fod yn anabledd cudd, mae'r pryderon mwyaf cyffredin yn ymwneud â mynd trwy brotocolau diogelwch maes awyr, gorfod dangos eu cwdyn stoma mewn man cyhoeddus, neu os bydd yn ymddangos ar y sganiwr corff. Rydym wedi ffurfio partneriaeth â Maes Awyr Caerdydd i ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o stoma i'w staff Diogelwch a Theithwyr Llai Symudol (PRM) ac rydym yn aelod o'u Fforwm Anabledd PRM.

Mae addysg ac ymgysylltu â phobl sydd wedi cael ostomi hefyd yn cael sylw yn ein postiadau blog rheolaidd, ein podlediadau a'n cyfres o weminarau. Yn ogystal, rydym yn croesawu grwpiau cymorth a nyrsys gofal stoma sy'n ymweld â'n safle yng Nghaerdydd, lle rydym yn ymfalchïo mewn tywys pobl o amgylch y ffatri i ddangos sut mae cydau stoma'n cael eu gwneud a lle gallant gyfarfod â'n staff maen nhw'n siarad â nhw.



# Knowledge Nest

# ein platfform addysg ar-lein



**Mae ein rhaglen ymgysylltu'n ymestyn i'r gymuned nyrsys gofal stoma hefyd trwy ein hymrwymiad i ddarparu gweminarau DPP achrededig ar ein platfform addysg ar-lein Knowledge Nest.**

Thema barhaus y gyfres o weminarau yw gweithio gyda chleifion stoma i fynd i'r afael â'u hanghenion. Mae pob gweminar yn cael ei harwain gan nyrs gofal stoma brofiadol ac yn cynnwys amcan dysgu clir i helpu i rymuso nyrsys gofal stoma. Mae cyfranogiad cleifion yn rhan annatod o hyn gan eu bod yn rhoi eu safbwynt ac yn rhannu eu profiadau. Mae sesiwn holi ac ateb fyw yn rhoi cyfle i aelodau'r gynulleidfa gael gwybod mwy. Gellir gweld y gweminarau'n fyw ac maen nhw hefyd ar gael i'w gweld ar adeg arall sy'n gyfleus.

Mae'r pynciau eang a diddorol wedi cynnwys:

- Y pŵer i gymryd rheolaeth lawn ar ôl i stoma gael ei ffurfio
- Agosatrwydd rhwydd a chwsg gorffwysol, heb darfu gan ostomi
- Rhyddid i ddangos stoma neu ei gadw o'r golwg

Bydd ychwanegiadau newydd i'r gyfres yn trafod rhywioldeb ac agosatrwydd; chwaraeon ac ymarfer corff a gofal ostomi o'r dyddiau cynnar i'r blynyddoedd hwyrach.

**www.ostomyknowledgenest.com**

## Adolygiadau

"Mae'n ysbrydoledig iawn clywed gan y cleifion eu hunain"

"Cyfres wych o weminarau ac fe'i mwynheais yn fawr. Rwy'n credu ei bod yn helpu i godi proffil nyrsys gofal stoma"

"Fe ddysgais i gymaint o'r gweminarau hyn"

"Roedd mor fuddiol clywed profiad nyrs gofal stoma o lygad y ffynnon"

"Croestoriad ardderchog o gyflwynwyr"

# Cymraeg

## ymrwymiad i'r Gymraeg



**Rydym yn gwybod bod llawer o'n cwsmeriaid yn hoffi cyfathrebu yn Gymraeg. Rydym yn deall pwysigrwydd darparu gwybodaeth a gwasanaethau yn Gymraeg.**

Mae ein polisi iaith Gymraeg yn dangos ein hymrwymiad i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gydradd. Rydym yn sicrhau ein bod yn rhoi'r un gwasanaeth gwych i'n cwsmeriaid Cymraeg eu hiaith trwy ddarparu cynghorwyr gwasanaeth cwsmeriaid sy'n siarad Cymraeg, llenyddiaeth a fideos cyngor Cymraeg a sianeli cyfryngau cymdeithasol Cymraeg a lansiwyd yn ddiweddar.

### Llenyddiaeth







### Cyfryngau Cymdeithasol







@pelicancymraeg
Pelican Healthcare Cymraeg

@respondcymraeg
Respond Healthcare Cymraeg






## Rydym yn adnabod Cymru, ei daearyddiaeth, ei hiaith, ei phobl a'i diwylliant, ac rydym hefyd yn deall o brofiad sut mae'r GIG yn darparu gwasanaethau trwy saith Bwrdd Iechyd Lleol a thair Ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru.

Mae Pelican a Respond yn bartneriaid dibynadwy ac mae ganddynt berthynas waith gref sydd wedi'i hen sefydlu â chydweithwyr y GIG ledled Cymru, ac rydym ni i gyd yn rhannu'r un nod o wella ansawdd bywyd pobl sydd wedi cael ostomi.

### Ein Poblogaeth

Rydym yn genedl o fwy na 3 miliwn o bobl, y mae ei phoblogaeth wedi tyfu 8% rhwng 1997 a 2017 ac y disgwylir iddi gynyddu 3.7% arall erbyn 2043. Mae 698,400 o bobl yn byw yn y chwe ardal awdurdod lleol yn y gogledd, 205,000 yn y ddwy ardal awdurdod lleol yng nghanolbarth Cymru a 2,232,000 yn y 14 ardal awdurdod lleol ar draws y de.

Rydym yn genedl sy'n heneiddio. Rhwng 1998 a 2018, cynyddodd gyfran y boblogaeth 65 oed a hŷn o 17.4% i 20.8% a gostyngodd gyfran y boblogaeth 15 oed ac iau o 20.6% i 17.9%. Bydd gennym 30.6% yn fwy o bobl 65 oed a hŷn, a 64.9% yn fwy o bobl 75 oed a hŷn erbyn 2043.

### Aneddiadau ac Ardaloedd Adeiledig yng Nghymru

Mae cymunedau wedi'u gwasgaru ar draws Cymru gyfan. Mae ardaloedd canolbarth a gorllewin Cymru yn fwy prin eu poblogaeth a gwledig eu cymeriad, tra bod yr ardaloedd deheuol a gogleddol yn llai prin eu poblogaeth ac yn fwy trefol.

### Ein Hiechyd

Rydym yn byw yn hirach ond mae disgwyliad oes yn is na lefel y Deyrnas Unedig gyfan. Mae gan bobl a anwyd yng Nghymru yn 2016–18 ddisgwyliad oes o 82.3 oed ar gyfer menywod a 78.3 oed ar gyfer gwrywod, o gymharu ag 82.9 oed ar gyfer menywod a 79.3 ar gyfer gwrywod yn y Deyrnas Unedig gyfan. Mae adroddiadau cyffredinol am iechyd yn dangos gwahaniaethau gofodol amlwg ar draws Cymru, gyda Gwynedd yn adrodd am y cyfraddau uchaf o iechyd cyffredinol da neu dda iawn a Blaenau Gwent yr isaf.

### Siaradwyr Cymraeg

Mae'r Gymraeg yn iaith fyw, gyda mwy na 562,000 o siaradwyr ym mhob rhan o'r wlad. Y nod yw cyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg, yn ogystal â chynyddu canran y bobl sy'n siarad Cymraeg bob dydd 10% erbyn 2050.

* Ffynhonnell: Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 gan Lywodraeth Cymru.



## Gogledd Cymru

Mae rhanbarth y gogledd yn cynnwys Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Ynys Môn, Parc Cenedlaethol Eryri a Wrecsam, ac mae'n gartref i bron **700,000 o bobl.** Mae ei dirwedd ddramatig yn cynnwys gwastatiroedd arfordirol isel, cadwyni o fynyddoedd ac ardaloedd wedi'u diwydiannu a hen feysydd glo.

Mae **204,406 o siaradwyr Cymraeg** ar draws y rhanbarth a chrynoadau o aneddiadau lle mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf i lawer o bobl.

Cymraeg

40.9% o siaradwyr Cymraeg

Bron 700,000 o breswylwyr

### Poblogaeth*

Bron 700,000

**Ardal fwyaf**
Sir y Fflint 155,000

**Ardal leiaf**
Ynys Môn 70,000

### Newid o ran y Boblogaeth

Cynnydd 6.3% o 1998 –2018

**Mwyaf**
Conwy 8%

**Lleiaf**
Ynys Môn 3.4%

### Iechyd

ywedodd 75% o bobl 16 oed a hŷn fod eu hiechyd yn dda neu'n dda iawn yn 2017–18 a 2018–19 (oedran wedi'i safoni).

### Y Gymraeg

Mae 41.9% o bobl yn siarad Cymraeg, sef 2.4% yn fwy nag yn 2009.

### Oedran

Mae 23% o bobl yn 65 oed a hŷn, sef 18.5% yn fwy nag ym 1998.

### Tirnodau

Mae gan y rhanbarth dreftadaeth unigryw. Mae'r mannau eithriadol yn cynnwys yr arfordir a phenrhyn Llŷn, Parc Cenedlaethol Eryri, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, a Safle Treftadaeth y Byd Traphont Ddŵr a Chamlas Pontcysyllte a Chestyll a Waliau Tref y Brenin Edward.

* Ffynhonnell: Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 gan Lywodraeth Cymru.





## Canolbarth Cymru

Mae rhanbarth canolbarth Cymru yn cynnwys Ceredigion, Powys a mwyafrif Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, ac mae'n gartref i **205,000 o bobl.** Dyma'r rhanbarth mwyaf gwledig o Gymru ac mae'n cynnwys ardaloedd ucheldir helaeth, mynyddoedd Cambria, y Mynydd Du, Bannau Brycheiniog a morlin deniadol. Mae'r boblogaeth wedi'i gwasgaru mewn trefi, pentrefi ac ardaloedd gwledig ar draws y rhanbarth.

Mae **58,954 o siaradwyr Cymraeg** ar draws y rhanbarth a chrynoadau o aneddiadau lle mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf i lawer o bobl.

Cymraeg

40.1% o siaradwyr Cymraeg

205,000 o breswylwyr

### Poblogaeth*

Tua 205,000

**Ardal fwyaf**
Powys 132,500

**Ardal leiaf**
Ceredigion 73,000

### Newid o ran y Boblogaeth

Cynnydd 3.8% o 1998 –2018

**Mwyaf**
Powys 5.6%

**Lleiaf**
Ceredigion 0.7%

### Iechyd

Dywedodd 74% o bobl 16 oed a hŷn fod eu hiechyd yn dda neu'n dda iawn yn 2017–18 a 2018–19 (oedran wedi'i safoni).

### Y Gymraeg

Mae 40.1% o bobl yn gallu siarad Cymraeg, sef 6% yn fwy nag yn 2009.

### Oedran

Mae 26.3% o bobl yn 65 oed a hŷn, sef 19.3% yn fwy nag ym 1998.

### Tirnodau

Mae canolbarth Cymru yn ardal fawr a gwledig yn bennaf sy'n cynnwys 39% o ehangdir Cymru ond dim ond tua 7% o'r boblogaeth. Mae gan y Canolbarth dreftadaeth ddiwylliannol gref, cyfran uchel o siaradwyr Cymraeg ac fe'i nodweddir gan drefi marchnad ac aneddiadau bach. Mae gan ganolbarth Cymru gyfoeth o asedau naturiol eithriadol o harbyrau a dyfrffyrdd i fynyddoedd a thirweddau dynodedig, sydd oll yn cyfrannu at gynnig twristiaeth rhagorol.

* Ffynhonnell: Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 gan Lywodraeth Cymru.



## De-orllewin Cymru

Mae rhanbarth y de-orllewin yn cynnwys Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Abertawe a Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro, ac mae ganddo boblogaeth o fwy na **700,000 o bobl.** Mae'r rhanbarth mawr ac amrywiol hwn yn cynnwys ardaloedd gwledig helaeth ac ardaloedd adeiledig trefol, wedi'u diwydiannu o amgylch ail ddinas Cymru, sef Abertawe.

Mae 147,864 ar draws y rhanbarth a chrynoadau o aneddiadau lle mae'r Gymraeg yn iaith gyntaf i lawer o bobl.

Cymraeg

31.8% o siaradwyr Cymraeg

702,000 o breswylwyr

### Poblogaeth*

702,000

**Ardal fwyaf**
Abertawe 246,500

**Ardal leiaf**
Sir Benfro 125,000

### Newid o ran y Boblogaeth

Cynnydd 8.7% o 1998 –2018

**Mwyaf**
Sir Benfro 11.8%

**Lleiaf**
Castell-nedd Port Talbot 5%

### Iechyd

Dywedodd 76.9% o bobl 16 oed a hŷn fod eu hiechyd yn dda neu'n dda iawn yn 2017–18 a 2018–19 (oedran wedi'i safoni).

### Y Gymraeg

Mae 31.8% o bobl yn siarad Cymraeg, sef 5.4% yn fwy nag yn 2009.

### Oedran

Mae 21.9% o bobl yn 65 oed a hŷn, sef 18.7% yn fwy nag ym 1998.

### Tirnodau

Mae rhanbarth y de-orllewin yn enwog am ei ddiwylliant a'i dreftadaeth ac mae ganddo adnoddau naturiol eithriadol sy'n cynnwys yr arfordir, Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ac Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Gŵyr. Mae hefyd yn gartref i gyfoeth o safleoedd amgylcheddol a warchodir, adeiladau diwydiannol a gweddillion hanesyddol.

* Ffynhonnell: Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 gan Lywodraeth Cymru.






## De-ddwyrain Cymru

Mae rhanbarth y de-ddwyrain yn cynnwys Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Caerdydd, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf, Torfaen a Bro Morgannwg a hwn yw'r rhanbarth mwyaf poblog o Gymru, gyda mwy nag **1.5 o breswylwyr.** Mae'n ddinas-ranbarth mawr ar raddfa Ewropeaidd a'r Deyrnas Unedig. Dyma'r lleiaf o'r pedwar rhanbarth yn ôl arwynebedd ac mae'n cynnwys dinasoedd arfordirol Caerdydd a Chasnewydd a hen froydd diwydiannol cymoedd y de.

Cymraeg

150,792 o siaradwyr Cymraeg

1,530,000 o breswylwyr

### Poblogaeth*

Tua 1,530,000

**Ardal fwyaf**
Caerdydd 364,00

**Ardal leiaf**
Merthyr Tudful 60,000

### Newid o ran y boblogaeth

Cynnydd 9.6% o 1998 –2018

**Mwyaf**
Caerdydd 18%

**Lleiaf**
Blaenau Gwent -2.2%

### Iechyd

Dywedodd 70% o bobl 16 oed a hŷn fod eu hiechyd yn dda neu'n dda iawn yn 2017–18 a 2018–19 (oedran wedi'i safoni)

### Y Gymraeg

Mae 20.2% o bobl yn siarad Cymraeg, sef 2.7% yn fwy nag yn 2009.

### Oedran

Mae 18.5% o bobl yn 65 oed a hŷn, sef 16% yn fwy nag ym 1998.

### Tirnodau

Mae gan ranbarth y de-ddwyrain lawer o adnoddau hanesyddol a naturiol eithriadol sy'n rhan bwysig o'r gwead lleol ac sy'n helpu i adrodd hanes ei gymunedau unigryw. Mae'n gartref i brifddinas Cymru, Caerdydd, ac mae tirnodau'n cynnwys Castell Caerdydd, Amgueddfa Werin Sain Ffagan a Chanolfan y Mileniwm drawiadol yn natblygiad glannau Caerdydd.

* Ffynhonnell: Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 gan Lywodraeth Cymru.



# yn gynaliadwy ac yn ystyriol o'r amgylchedd

**Rydym wedi buddsoddi mewn paneli solar newydd i sicrhau bod ein prosesau gweithgynhyrchu'n cael eu darparu trwy ynni gwyrdd, cynaliadwy, ac mae hyn hefyd yn golygu bod 5% o'r ynni sy'n cael ei greu yn gallu cael ei anfon yn ôl i'r grid.**

Mae ein hymdrech i ddefnyddio ynni adnewyddadwy yn ein proses weithgynhyrchu yn bodloni un o themâu allweddol Strategaeth Un Blaned Cyngor Caerdydd; Ynni – sut mae'n cael ei ddefnyddio, ei ganfod, ei ddosbarthu a'i gynhyrchu, ac mae Pelican yn arwain y ffordd fel gweithgynhyrchwr mawr yn y ddinas.

Mewn llai na 6 mis, mae ein menter gwrthbwyso carbon wedi arbed allyriadau $CO_2$ sy'n cyfateb i blannu mil o goed. Rydym yn llwyr gefnogi ymrwymiad y GIG i gyflawni GIG Sero-net erbyn 2045. Rydym ar ddechrau ein taith gynaliadwyedd a'r paneli solar a'u heffaith yw'r cam cyntaf yn ein gweledigaeth gynaliadwyedd.

**4,000 o fetrau sgwâr** o'r to wedi'u gorchuddio

**614,000 Kwh** yn cael ei gynhyrchu y flwyddyn

**£500k** wedi'i fuddsoddi mewn paneli solar

**2,350 o baneli** wedi'u gosod ar do ein pencadlys yng Nghaerdydd

**Goleuadau LED ynni isel** yn y safle drwyddo draw

**Synwyryddion isgoch goddefol (PIR)** i droi goleuadau ymlaen

# cysylltu â ni




**Delwedd:** Safle Caerdydd



## Os hoffech gael gwybod mwy am Pelican a Respond Healthcare, ein cynhyrchion a'n gwasanaethau, mae croeso i chi gysylltu â ni.

### Cysylltiadau

**Owen McNamara**
Pennaeth Cynhyrchion a Marchnata,
Ostomi y Deyrnas Unedig, Eakin Healthcare Group

E: owen.mcnamara@eakinhealthcare.com

**Darren Killick**
Cyfarwyddwr Datblygu Marchnadoedd Newydd y Deyrnas Unedig
Ostomi y Deyrnas Unedig, Eakin Healthcare Group

E: darren.killick@eakinhealthcare.com

### Ein Safleoedd yng Nghymru

**Pelican Healthcare Ltd**

Pelican Healthcare Ltd
Greypoint, Parc Busnes Caerdydd
Caerdydd, CF14 5WF

0800 318 282
contactus@pelicanhealthcare.co.uk
www.pelicanhealthcare.co.uk

PelicanHealthcare
@pelicancymraeg
PelicanHealthcareLtd
Pelican Healthcare Cymraeg
PelicanHealth
Pelican-Healthcare-Ltd

**Respond Healthcare Ltd**

Respond Healthcare Ltd
Greypoint, Parc Busnes Caerdydd
Caerdydd, CF14 5WF

0800 220 300
hello@respond.co.uk
www.respond.co.uk

Respond Healthcare Ltd
2 Ystad Ddiwydiannol Fairfield,
Gwaelod-y-garth, Caerdydd CF15 8LA

RespondLtd
@respondcymraeg
RespondLtd
Respond Healthcare Cymraeg
RespondLtd
Respond-Healthcare-Ltd

**Papur**

pelican HEALTHCARE

respond making life better

www.pelicanhealthcare.co.uk
www.respond.co.uk

Eakin Healthcare Group